# SL(5)157 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2017

## Cefndir a diben

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru ac mae'n darparu ar gyfer taliadau am wasanaethau a threuliau swyddogion canlyniadau mewn cysylltiad â chynnal etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn, ac nid oes rhaid i'r Gorchymyn gael ei osod gerbron y Cynulliad.

## Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae'r Gorchymyn yn offeryn statudol ond oherwydd nad oes rhaid ei osod gerbron y Cynulliad nid yw'r Pwyllgor yn adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried a llunio adroddiad ar y Gorchymyn o dan Reol Sefydlog 21.7(v) (fel mater deddfwriaethol o natur gyffredinol o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw).

## Pwyntiau i gyflwyno adroddiad yn eu cylch:

Mae'r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd y Gorchymyn hwn a'r angen i dynnu sylw, yn arbennig, at y symiau ar gyfer "gwasanaethau penodedig" a "threuliau penodedig" y caiff swyddog canlyniadau eu hadennill mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir.

Nodir y symiau yn erthygl 4 o'r Gorchymyn (sy'n mewnosod Atodlen 1 newydd i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016).

Y "gwasanaethau penodedig" yw:

(a) gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad;

(b) cynnal yr etholiad;

(c) cyflawni holl ddyletswyddau swyddog canlyniadau etholaeth mewn cysylltiad â'r etholiad.

Y “treuliau penodedig” yw:

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo’r swyddog canlyniadau etholaeth;

(b) treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos y swyddog canlyniadau etholaeth ac unrhyw berson a benodir i gynorthwyo’r swyddog canlyniadau etholaeth;

(c) costau’r broses enwebu;

(d) argraffu neu gynhyrchu fel arall y papurau pleidleisio;

(e) argraffu neu gynhyrchu fel arall neu brynu deunyddiau pleidleisio drwy’r post;

(f) argraffu neu gynhyrchu fel arall gardiau pleidleisio, a threfnu i’w dosbarthu;

(g) argraffu neu gynhyrchu fel arall yr holl hysbysiadau a dogfennau etholiad, a’u cyhoeddi;

(h) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer unrhyw adeilad neu ystafell;

(i) darparu a chludo cyfarpar;

(j) darparu cyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

(k) darparu diogelwch, gan gynnwys storio blychau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau gwirio yn ddiogel;

(l) cynnal y gwirio a’r cyfrif;

(m) darparu a chael hyfforddiant;

(n) darparu deunyddiau ysgrifennu a thalu costau postio, ffonio, argraffu, cyfieithu a bancio a chostau eitemau amrywiol eraill.

## Ystyriaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn hwn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2017 a bydd yn cyflwyno adroddiad i’r Cynulliad.